**Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Hydref 9fed, 2023 am 7.30 y.h. yng Nghanolfan Deunant.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Dewi Evans (yn gweithredu fel clerc dros dro), Mari Evans, Wil Evans, Jaci Jones, Nesta Roberts, Wenda Williams a'r Cynghorydd Gareth Williams (Y Cyngor Sir).
Yn y gadair: Y Cynghorydd R.J. Williams

**1)Ymddiheuriadau a datgan diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Emlyn Jones, Gwenllian Hughes Jones, Dafydd Myrddin, Tim Rosa a Dafydd Williams.

**2) Cyhoeddiadau y cadeirydd**

Ar ran y Cyngor estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i Mrs Margaret Evans, mam y Cynghorydd Mari Evans, wedi ei llawdriniaeth ddiweddar. Soniodd hefyd y byddai yntau, oherwydd ei fod yn disgwyl llawdriniaeth, yn absennol o'r cyfarfod nesaf.

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg o Fedi 2023:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion**

*i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau*

Wal y Fynwent, Aelrhiw Sant, Y Rhiw

Mae perchennog y wal eisoes wedi cael ei hysbysu o gyflwr y wal a gofynnwyd iddo wneud gwaith i atgyweirio'r diffyg cyn gynted ag y bo modd.

Cyffordd Nant Y Gadwen, Y Rhiw

Bydd gwaith i docio'r canghennau yn cael ei wneud pan fydd adnoddau ar gael.

Postiau Pren ger Pont Bodernabwy, Aberdaron

I ymholiad i'r Cyngor Sir pam y gosodwyd bolardiau rhwng pont Bodernabwy a chroeslon Moryn atebwyd mai'r bwriad yw atal cerbydau trwm ac amaethyddol rhag gyrru ar yr ymyl glaswellt ac achosi cau'r ffos. Penderfynwyd defnyddio bolardiau derw (a oedd dros ben o brosiect arall) yn hytrach na ffens diogelwch gan y tybid y byddai'n gweddu yn well i'r ardal.

Lôn Tŷ'n Rhos ac Eglwys Bodferin, Rhydlios

Bydd llythyrau rhybudd i dorri gordyfiant yn cael eu gyrru allan i'r perchnogion tir yn fuan. Nodwyd fod brys yn hyn o beth gan fod y fan yn beryg i yrwyr.

Pont Bodernabwy, Aberdaron

Hysbyswyd y Cyngor y byddai'r gwaith yn cael sylw pan fydd adnoddau ar gael, a nodwyd yn y cyfarfod ei fod bellach wedi ei wneud.

*ii)Materion yr Eglwys Newydd*

Cadarnhawyd fod y cwmni yswiriant yn fodlon talu'r amcan bris a nodwyd, ac addawodd y Cadeirydd gysylltu â Chwmni Donald Insall, a fu'n gwneud yr arolwg, a Chwmni Gallaghers, sydd am wneud y gwaith, i geisio gweld pa mor fuan y medrir symud ymlaen. Cytunwyd y byddai'n fuddiol i bwy bynnag a ddaw i weld yr Eglwys gael sgwrs ag aelodau'r Cyngor. Trafodwyd syniadau ar sut i godi ychwaneg o arian i'r Eglwys, a phenderfynwyd ei bod yn bryd cael cyfarfod o Bwyllgor Cyfeillion yr Eglwys.

*iii)Cae chwarae*

Nid oedd cynrychiolaeth o Bwyllgor y Cae Chwarae'n bresennol a gohiriwyd y drafodaeth tan y cyfarfod nesaf.

*iv)Mynedfa'r traeth*

Bwriedir holi'r Swyddog Morwrol ynghylch cyflwr mynedfa'r traeth heibio i faes parcio Henfaes bellach, ac a oes angen gosod graean yno. Nodwyd hefyd fod y bwiau fu yn y bae dros yr haf bellach wedi dod i'r lan, ac mai da fyddai gwybod pryd y byddant yn cael eu gosod eto.

*v)Swydd y clerc – trefniadau*

Ni chafwyd unrhyw ymholiadau ynghylch swydd wag y Clerc, ac awgrymwyd ei hysbysu eto drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a hefyd ar hysbysfwrdd Cyngor Gwynedd. Bydd raid holi sut i roi manylion cyfarfodydd y we ar y wefan, a theimlwyd y byddai'n fuddiol i aelodau gael sgwrs gyda'r Bon. Iwan Hughes, y Clerc blaenorol, ynghylch materion felly a chofnodion yr Eglwys Newydd, gan mai ef fu'n gyfrifol am gymaint o'r gwaith yn ei chylch.

*vi)Diweddariad ynghylch safle Ysgol Llidiardau a Tŷ'r Ysgol Deunant*

Derbyniwyd gohebiaeth i'n hysbysu fod trafodaethau ar y gweill rhwng Cynllun Peilot Dwyfor a Tai teg ynghylch defnydd o'r safle, ond nad oes unrhyw benderfyniad terfynol wedi ei wneud eto. Mae datblygiadau hefyd ar y gweill i ddatblygu Tŷ'r Ysgol, Deunant, a disgwylir cynllun arfaethedig terfynol yn fuan.

*vii)Diweddariad ynghylch 'The Wilds'*

Bwriedir dechrau erlyniad llys yn erbyn y perchnogion.

*viii) Cŵn ar dennyn*

I'r ymholiad a ellid rhoi arwyddion yn gwahardd cŵn ar dennyn ar Lwybr yr Arfordir, atebwyd mai arwyddion yn gofyn iddynt wneud hynny yn unig oedd yn bosibl. Cadw cŵn dan reolaeth sydd raid yn ôl y ddeddf, nid eu cadw ar dennyn. Nodwyd fod cŵn yn broblem gynyddol.

*ix) Awyr Dywyll*

Ymatebwyd yn ffafriol i gais AHNE Llŷn weld a ellir dynodi rhan orllewinol Penrhyn Llŷn – sef ardal cymuned Aberdaron – yn Gymuned Awyr Dywyll.

**5) Gohebiaethau**

Un Llais Cymru - Nodwyd fod cyrsiau o bell ar gael dan raglen hyfforddiant i gynghorwyr.

Arwyddion newydd 20 m.y.a. - Teimlwyd ei bod yn rhy fuan i wneud sylw ar y cynllun, ac mai amser a ddengys a fydd yn llwyddiant ai peidio.

Cynhelir digwyddiad i drafod creu cartrefi i'r gymuned yng Nghanolfan Congl y Meinciau ar 18 Hydref (er gwybodaeth).

Derbyniwyd neges fod 'Pecynnau Perllan' ar gael am ddim i grwpiau a sefydliadau cymunedol i wella ardaloedd (er gwybodaeth).

Derbyniwyd gohebiaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn nodi fod arolwg yn cael ei drefnu i holi am brofiadau pobl hŷn am heriau wrth gael gafael ar wasanaethau meddygon teulu (er gwybodaeth).

**6) Cynllunio**

Dim wedi eu derbyn

**7)Ariannol**

*Awdurdodwyd y taliadau canlynol:*

Iwan Hughes: £520 (Cyflog Awst a Medi)

HMRC (Paye): £130

Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy s/o)

Ffioedd HSBC: £5

*Derbyniadau*
Roberts & Owen: £165 (bedd John Selwyn Lloyd)

**8) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

a) Nodwyd fod bin sbwriel wedi ei osod o flaen yr hysbysfwrdd wrth Gegin Fawr. Argymhellwyd gofyn eto a ellir ei roi mewn man mwy addas.
b) Daw cwynion parhaus ynghylch diffyg ateb wrth ffonio Meddygfa Rhyd Bach. Argymhellir i unrhyw un â chwyn nodi dyddiad ac amser a'i gyrru at y feddygfa, ond cytunwyd i yrru at y Rheolwr eto.
c) Mae twll yn y lôn gyferbyn â Phen Cae y bydd gofyn cysylltu â'r Adran Priffyrdd yn ei gylch.
ch) Rhaid cael llun o'r bin sbwriel yn y cae chwarae i'w yrru at yr adran berthnasol.
d) Mae'r llwybr cyhoeddus heibio i Gefn Coch am y pentref mewn cyflwr gwael iawn oherwydd brigau isel, tyfiant ac olion gwartheg yn gwneud y tir yn lleidiog ac anwastad.

**Bydd y cyfarfod nesaf o'r cyngor yn cael ei gynnal nos Lun, Tachwedd y 13eg am 7.30 y.h. yn Neuadd Rhoshirwaun.**